

# MANIFFESTO CYMRU AR GYFER ETHOLIADAU'R SENEDD 2026

Sut gall Llywodraeth nesaf Cymru newid bywydau a newid plentyndod ledled Cymru

BARNARDO'S CYMRU



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Maniffesto Barnardo's Cymru – cipolwg | 6 |
| Plant a phobl ifanc sy'n cael anhawster â'u lles emosiynol neu iechyd meddwl a llesiant | 8 |
| Plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi | 11 |
| Teuluoedd sydd angen cefnogaeth i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant | 15 |
| Plant mewn gofal a gadawyr gofal | 24 |
| Plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol, manteisio a niwed | 28 |
| Plant a theuluoedd sy'n ceisio noddfa yn y DU | 32 |

# Rhagair

## Sarah Crawley, Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru

> **"Mae'n rhaid iddyn nhw roi rhywbeth i ni fod yn obeithiol amdano."**

**Dyma eiriau person ifanc a fu'n gweithio ar y maniffesto hwn gyda ni. Mae'n crynhoi ein rhwymedigaethau i bobl ifanc; ein rhwymedigaethau ni fel Barnardo's Cymru, a rhwymedigaethau ymgeiswyr, gwleidyddion etholedig a llunwyr polisïau. Mae etholiad Senedd 2026 yn dod ar adeg hollbwysig i fabanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ar ôl wynebu llawer o heriau dros y blynyddoedd diwethaf, mae plant a'u teuluoedd yn dal i deimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'u dyfodol ac mae arnyn nhw eisiau gweld llywodraeth sy'n rhannu'r un brwdfrydedd ac angerdd ynglŷn â sut y gallai eu bywydau nhw fod.**

Mae plant yn dweud wrthym bod arnyn nhw eisiau gweld y gwleidyddion sy'n eu cynrychioli yn cydnabod nad problemau i'w datrys yw plant, ond bod ganddynt fywydau bywiog a chyffrous y dylem fod yn eu cefnogi er mwyn eu gwneud hyd yn oed yn well.

Wedi dweud hynny, er gwaethaf eu hoptimistiaeth reddfol, mae plant yn gwybod bod pethau wedi bod yn anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny ers cyn cof i lawer o blant.

Mae effeithiau parhaus y pandemig, tlodi a chostau byw, cynnydd aruthrol yn nifer y plant sy'n cael anhawster â'u hiechyd meddwl a'r byd ar-lein sy'n newid yn gyflym – â'r holl gyfleoedd a risgiau sy'n dod yn sgil hynny – yn golygu bod bywyd plant yng Nghymru wedi newid mwy nag y gall llawer o oedolion ei ddychmygu.

Oherwydd hyn, mae'n bwysicach byth ein bod yn gwrando'n uniongyrchol ar fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth i ni symud tuag at oes newydd i Lywodraeth Cymru a gwneud penderfyniadau gwleidyddol yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch o galon i'r holl blant, pobl ifanc, teuluoedd a staff Barnardo's Cymru sydd wedi rhannu eu hamser, eu profiadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol, er mwyn helpu i ddatblygu'r maniffesto hwn. Mae'n cael ei gyflwyno i chi; chi yw canolbwynt popeth rydym yn ei wneud yn Barnardo's, ac adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i chi yw'r peth pwysicaf i ni.

Rydym yn galw ar bob gwleidydd sy'n sefyll yn yr etholiad hwn i addo gwrando'n uniongyrchol ar fabanod, plant a phobl ifanc, ac i wneud pob penderfyniad fel pe bai plant yn yr ystafell gyda nhw. Ers llawer gormod o amser, mae plant wedi bod yn cael eu diystyru a'u tanbrisio wrth wneud penderfyniadau gwleidyddol, er eu bod yn cynrychioli dyfodol Cymru y mae pob un ohonom wedi ymrwymo i'w datblygu.

Os byddwch yn darllen un peth yn y maniffesto hwn, edrychwch ar y llythyr ar y dudalen nesaf gan Hatti, merch 17 oed, sydd wedi'i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholiad hwn. Mae Hatti wedi ysgrifennu am y materion pwysicaf iddi hi, a'r newidiadau y byddai hi'n hoffi eu gweld.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru obeithion, breuddwydion ac uchelgeisiau fel y rhai a amlinellwyd gan Hatti. O ran Hatti, mae'r newid y byddai hi'n hoffi ei weld yn ymwneud â niwroamrywiaeth a'r gefnogaeth a ddylai fod ar gael iddi hi. Gallai blaenoriaethau plant eraill yng Nghymru fod yn wahanol. Dyma pam na allwn drin plant fel un grŵp lle mae pawb yr un fath – rhaid i ni ymgysylltu â nhw'n feddylgar yn eu holl amrywiaeth a'u gwahaniaethau.

Mae llythyr Hatti yn dangos angerdd ac ymrwymiad plant a phobl ifanc yng Nghymru, a'u hawydd i weld newid yn eu cymunedau.

Mae babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru yn uchelgeisiol ynglŷn â'u dyfodol, ac mae arnyn nhw eisiau llywodraeth sydd yr un mor uchelgeisiol. Maen nhw'n haeddu gweld llywodraeth yn y dyfodol yng Nghymru sy'n teimlo yr un mor frwdfrydig ynglŷn â'u bywydau a'u cyfleoedd nhw ag y maen nhw'n teimlo, ac rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd pob ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholiad hwn yn cyflwyno'r achos hwnnw.

**Sarah Crawley**
**Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru**

I bwy bynnag a fynno wybod,

Fel pobl ifanc sydd wedi cael ein magu yng Nghymru, mae pobl yn dweud wrthym yn aml mai ni yw'r dyfodol. Bod yn rhaid i ni weithio'n galed a breuddwydio am bethau mawr er mwyn cyfrannu tuag at genedl sy'n ffynnu. Ond mae'n ymddangos bod y system bresennol, a gafodd ei chreu er mwyn meithrin yr uchelgeisiau hyn, yn ein dal ni'n ôl.

Nid awgrym yn unig yw'r llythyr hwn; mae'n faniffesto pwysig a thaer o goridorau ysgolion Cymru.

Yn rhy aml o'r hanner, mae myfyrwyr niwroamrywiol yn cael eu camddeall, eu camlabelu a'u diystyru. Mae ein ffyrdd unigryw o ddysgu a rhyngweithio yn cael eu gweld yn aml fel heriau i'w 'trwsio' yn hytrach na chryfderau i'w meithrin neu wahaniaethau i ddarparu ar eu cyfer.

O ganlyniad, rydym ni, lleisiau yfory, yn mynnu bod addysg niwroamrywiaeth orfodol yn cael ei darparu i staff ysgolion ym mhob cwr o Gymru.

Mae hyn yn ymwneud â'r hyn sy'n 'iawn', a hefyd â'r hyn sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol Cymru a'i phobl. Pam y dylai ein lleisiau ni – lleisiau ein potensial cynyddol – fod ar reng flaen y newid hwn. Heb os nac oni bai mae llunwyr polisiau ac addysgwyr yn gweithio'n galed, ond maent yn gwneud hynny o safbwynt gwahanol. Rydym ni'n byw beth bynnag rydych chi'n ei gymeradwyo. Rydym yn gweld y pethau drwg yn cael eu gwneud yn ddeniadol ar gyfer adolygiadau da.

Mae'r addysg rydym ni'n ei chael heddiw yn effeithio'n uniongyrchol ar ein gallu i gyfrannu i economi, cymdeithas a diwylliant Cymru. Os bydd cymdeithas yn parhau i beidio â chydnabod potensial cyfran arwyddocaol o bobl ifanc oherwydd camddealltwriaeth systematig a stereoteipiau niweidiol neu gyffredinoli, bydd Cymru yn methu, yn drychinebus, gan golli talentau, arloesi a phersbectifau amrywiol.

Mae gan addysgwyr rôl i'w chwarae drwy baratoi plant i gyfrannu i'n cenedl, ond yn lle hynny, mae'n ymddangos eu bod yn diraddio pobl ifanc ac nad ydynt yn eu hannog i ymuno â gweithle.

Mae arnoch chi ein hangen ni gymaint ag y mae arnom ni eich angen chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Hatti Bluff

**Rydym yn cefnogi'r alwad unedig ar bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd yn yr etholiad i wneud addewid i weithredu'n gryf ac yn ymroddedig fel Hyrwyddwyr dros Blant drwy gydol yr ymgyrch etholiadol ac yn ystod tymor nesaf y Senedd – sefyll dros hawliau a llesiant plant a chreu cyfleoedd go iawn i glywed eu barn er mwyn llywio pob penderfyniad a fydd yn dylanwadu ar eu bywydau. Rhaid i fabanod, plant a phobl ifanc fod wrth graidd prosesau gwneud penderfyniadau gwleidyddol yng Nghymru, ac rydym yn falch o gefnogi'r maniffesto Hyrwyddwyr dros Blant**

**Mae Barnardo's Cymru hefyd yn cefnogi Bil Pob Plentyn[1], a byddem yn annog gwleidyddion i edrych sut y gallant fabwysiadu hyn ym maniffestos eu plaid eu hunain.**

[1] Bil Pob Plentyn – A Law for Every Child

# Maniffesto Barnardo's Cymru - cipolwg

**Yn anffodus, mae gormod o blant yng Nghymru yn byw bywydau nad ydynt yn ddiogel, yn iach, yn hapus ac yn obeithiol. Mae llawer nad ydynt yn cael cyfle cyfartal at gyfleoedd.**

## Dylai llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i'r canlynol:

### Plant a phobl ifanc sy'n cael anhawster â'u lles emosiynol neu iechyd meddwl a'u llesiant

- Sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a theulu yn gallu cael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl a lles emosiynol buan yn eu cymunedau.
- Cefnogi datblygiad model cefnogaeth iechyd meddwl sy'n gynnig teulu cyfan, yn seiliedig ar y gymuned, ac yn canolbwyntio ar y plentyn.

### Plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi

- Datblygu cynllun Taliad Plant yng Nghymru
- Cyflwyno Grant Babi Newydd i helpu teuluoedd ar incwm isel i fforddio cyfarpar hanfodol.
- Gweithredu'r cynllun Bwndel Babi yn llawn ac yn eang i'r teuluoedd sydd fwyaf o angen cefnogaeth, gan weithio tuag at gynnig cynhwysol pan fydd amgylchiadau ariannol yn caniatáu.
- Ymestyn y cynnig cynhwysol o brydau ysgol iach am ddim i ysgolion uwchradd
- Rhoi cludiant cyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc er mwyn chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad at addysg, hyfforddiant a gweithgareddau cymdeithasol.

### Teuluoedd sydd angen cefnogaeth i roi'r cyfle gorau mewn bywyd i'w plant

- Ymrwymo i hawl statudol i blant, pobl ifanc a theuluoedd dderbyn ymyriad cynnar a gwasanaethau atal gan eu hawdurdod lleol wedi'i gynllunio i gefnogi teuluoedd a, lle bo modd, cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel a chadw plant allan o ofal yr awdurdod lleol. Dylai hyn gael ei ariannu'n llawn.
- Cyflwyno gwasanaethau arbenigol ar ffiniau gofal ym mhob cwr o Gymru er mwyn sicrhau bod pob teulu'n gallu cael mynediad at wasanaethau fel Babi a Fi, lle bynnag maen nhw'n byw.
- Gwarantu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cynnal neu ailgyflwyno gwasanaeth Reflect ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Gwella cefnogaeth i blant niwroamrywiol mewn ysgolion, a chefnogi'r teulu cyfan.

### Plant mewn gofal a rhai sy'n gadael gofal

- Gwella cefnogaeth i deuluoedd lle darperir gofal gan berthynas ac i blant sydd dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Rhoi'r Siarter Rhianta Corfforaethol ar sylfaen statudol
- Datblygu cynnig o gefnogaeth gofleidiol, gyfannol i bobl ifanc mewn gofal a rhai sy'n gadael gofal, eu cefnogi am dipyn ar ôl iddynt ddod yn oedolion a'u helpu i gyflawni eu huchelgeisiau
- Creu hawl statudol i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl gan eu hawdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd.



**Plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol, camfanteisio a niwed**

- Ariannu gwasanaethau cefnogi teulu-cyfan, cynhwysfawr i blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr cam-drin/camfanteisio ar blant yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth cam-i-fyny a cham-i-lawr.

- Cyflwyno llwybr Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a gwasanaethau cefnogi arbenigol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth briodol cyn gynted ag y bo modd.

- Buddsoddi mewn cefnogaeth arbenigol, teulu-cyfan i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig. Dylai hyn gynnwys cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol ledled Cymru, gan roi terfyn ar gefnogaeth loteri cod post.

- Cyflwyno prosiect Night Light yng Nghymru er mwyn diogelu plant rhag risgiau camfanteisio'n rhywiol.

**Plant a theuluoedd sy'n ceisio noddfa yn y DU**

- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn gallu cael mynediad buan at gefnogaeth iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma ac yn rhoi sylw i hunaniaeth ddiwylliannol a phrofiadau personol.

- Cyflwyno hawl awtomatig i blant mewn teuluoedd nad oes ganddynt hawl i gael cyllid cyhoeddus gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.

# Plant a phobl ifanc sy'n cael anhawster â'u lles emosiynol neu iechyd meddwl a llesiant

"Does yna ddim cefnogaeth iechyd meddwl amenedigol yn y maes yma. Mae yna un ferch sy'n gweithio yn y gwasanaeth sydd â meini prawf penodol iawn felly does yr un o'n Mamau ni'n gymwys. Mae hynny'n golygu, yn ymarferol, bod dim byd ar gael yma."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

"Pan mae rhywun yn dweud wrthych chi eich bod yn y lle anghywir i gael cefnogaeth, mae'n teimlo fel cael eich gwrthod, ac mae'n brifo i'r byw. Mae ceisio siarad ar ran eich plentyn yn waith blinedig iawn pan mae'n teimlo fel hyn."

Rhiant

"Dw i ddim yn teimlo eu bod nhw'n ystyried fy emosiynau. Maen nhw eisiau eich cael chi i mewn a'ch cael chi allan eto. Eu gwaith nhw ydy gwrando ar bobl ifanc, ond dydyn nhw ddim yn gwneud hynny."

Person ifanc



"Roedd fy ngweithiwr CAMHS yn dda iawn. Wnaethon nhw fy ngweld i'n fuan, ac roedden nhw bob amser yn gallu cynnig mwy o sesiynau i mi os oedd arna i eu hangen nhw."

Person ifanc

"Y profiad gorau dw i wedi ei gael ydy pan wnaeth rhywun gymryd amser i ddod i'm hadnabod i a'r pethau bach sy'n fy ngwneud i'n fi. Roedd o'n fwy o gydweithio efo nhw, nid gwers."

Person ifanc

"Mae rhai ysgolion yn cynnig llawer [o gefnogaeth iechyd meddwl], ond mae'n wahanol o le i le."

Person ifanc

"Dyw gwasanaethau iechyd meddwl ddim bob amser yn addas i berson ifanc."

Ymarferydd Barnardo's Cymru



# Mae gan 10 BOB 6 phlentyn yng Nghymru gyflwr iechyd meddwl y gellir ei ddiagnosio[2], ac mae llawer yn wynebu anawsterau â'u llesiant oherwydd yr hyn sy'n digwydd yn eu bywydau – boed yn fwlio, gorbryder, neu faterion eraill.

Mae iechyd meddwl da yn dechrau mor gynnar ag yn ystod beichiogrwydd, â'r angen i ganolbwyntio ar iechyd meddwl amenedigol a pherthnasoedd babanod-rhieni.

Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc wrthym bod arnynt eisiau i'w hiechyd meddwl gael ei gefnogi yn llawer cynharach, cyn iddynt gyrraedd pwynt diagnosis.

Mae plant sy'n estyn allan am help yn wynebu rhestrau aros hir a diffyg cefnogaeth. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael 'eu hanghofio' ar restrau aros hir a gofynasant am fwy o gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf gwaith sylweddol i adnabod ac ymateb i'r 'canol coll[3]' yng Nghymru, roedd pobl ifanc yn dal i ddisgrifio 'diffeithwch' o gyngor a chefnogaeth iddynt os nad oeddent yn cael eu cyfeirio at ymyriad CAMHS.

Er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc â'u hiechyd meddwl, dylai llywodraeth nesaf Cymru:

- **Sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a theulu yn gallu cael mynediad at gefnogaeth fuan ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol yn eu cymunedau.**

- **Darparu gwasanaeth cadw mewn cysylltiad dros y ffôn i bobl ifanc sy'n wynebu cyfnod aros hir am gefnogaeth, â'r gallu i gyflymu mynediad at gefnogaeth lle mae pobl ifanc wedi dirywio yn ystod y cyfnod hwn.**

- **Buddsoddi mewn gwasanaethau i ddatblygu gwydnwch a llesiant mewn plant a phobl ifanc, gan gynnwys darparu lles teuluol fel darpariaeth cyn CAMHS neu ddarpariaeth camu-i-lawr.**

- **Cefnogi datblygiad model o gefnogaeth iechyd meddwl sy'n gynnig teulu-cyfan, wedi'i leoli yn y gymuned, sy'n rhoi'r plentyn yn y canol.**

Mae cael y gallu i weithio gyda'r teulu cyfan yn golygu cefnogi aelodau o'r teulu i weithio drwy heriau ac adfer ar ôl trawma gyda'i gilydd. Maen nhw'n gallu deall teimladau ei gilydd, a datblygu newid parhaol yn y teulu gyda'i gilydd.

- **Creu cynllun gweithredu (ynghlwm wrth y Strategaeth Iechyd Meddwl 10 mlynedd) ar gyfer iechyd meddwl a niwroamrywiaeth, gan fynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth rhwng ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau argyfwng, y man lle mae llawer o bobl ifanc sydd â phroblemau niwroamrywiaeth a phroblemau iechyd meddwl yn eistedd, a lle nad oes llawer o gefnogaeth ar gael.**

Mae ymarferwyr yn dweud wrthym bod plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth ac ADHD yn aml yn gweld nad oes sylw'n cael ei roi i'w problemau iechyd meddwl gan fod gweithwyr iechyd proffesiynol yn dweud mai'r rheswm dros eu symptomau yw eu niwroamrywiaeth, er y bydd gan lawer o blant broblemau eraill hefyd.

[2] Plant 8 – 15 oed Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

[3] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg "Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru" 2020

**Sbotolau ar Wasanaeth**

### Gwasanaeth Llesiant Teuluoedd Caerdydd

Mae Gwasanaeth Llesiant Teuluoedd Caerdydd yn darparu cefnogaeth emosiynol a therapiwtig i deuluoedd a phlant er mwyn gwella eu llesiant, eu hiechyd meddwl a'u perthnasoedd. Mae'r gwasanaeth yn anniagnostig ac mae'n defnyddio ymagwedd deuluol gyfannol at lesiant.

Mae'r gwasanaeth, sydd wedi'i anelu tuag at ymyrryd yn gynnar, ac atal, yn cefnogi lleihau'r risg o ddatblygu problemau parhaol sy'n gysylltiedig â llesiant a thrwy hynny nifer y teuluoedd a allai fod angen ymyriadau statudol. Mae hyn yn elfen hollbwysig o hybu iechyd meddwl da ledled Cymru.

Mae ein gwaith gyda theuluoedd yng Nghymru wedi dangos i ni bod gwella iechyd meddwl pobl ifanc yn aml yn galw am ddealltwriaeth o ddynameg y teulu cyfan er mwyn sicrhau newid parhaol. Mae gweithio fel hyn yn sicrhau bod y rhwydwaith sydd o amgylch y plentyn neu'r person ifanc hefyd yn cofleidio newid, gan wneud teuluoedd yn fwy gwydn yn yr hirdymor. Rydym hefyd yn cydnabod effeithiau hirdymor tlodi ar ganlyniadau iechyd gan gynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a lles plant a'u teuluoedd.

Dywedodd person ifanc a ddefnyddiodd y gwasanaeth:

**"Pan o'n i'n dod i'r gwasanaeth ro'n i'n teimlo'n amheus. Rydw i wedi cael therapi siarad o'r blaen ac mi wnaeth o weithio am ychydig, ond wnaeth o erioed wneud i mi deimlo y ffordd mae hyn wedi gwneud i mi deimlo ar ddiwedd pob sesiwn. Mae fy meddwl yn gliriach, rwy'n cael llawer mwy allan o'r strategaethau ymdopi ac rwy'n teimlo'n llawer mwy cadarnhaol!"**

Person ifanc

**Sbotolau ar Wasanaeth**

### Meddwl Ymlaen

Mae Meddwl Ymlaen yn rhaglen grant gwerth £10 miliwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Nod y rhaglen yw grymuso pobl ifanc i greu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer dyfodol mwy gwydn a gwell iechyd meddwl i bobl ifanc yn eu cymuned. Derbyniodd Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn £1.5 miliwn dros 5 mlynedd.

O fewn y prosiect mae pobl ifanc yn cael eu recriwtio i rôl Arweinydd Ifanc, sydd yn eu tro yn gweithredu fel Llysgenhadon i'r prosiect, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Credwn fod hyn yn arwain at wneud penderfyniadau gwell ac at well gwasanaethau.

**Dw i wedi mwynhau bod yn arweinydd ifanc i Meddwl Ymlaen. Roedd cael cyfleoedd i wneud pethau fel siarad yn siambr y cyngor yn brofiad arbennig ac mae popeth wedi bod yn rhagorol at ei gilydd. Mae wedi bod yn wych teimlo bod rhywun yn gwrando arnon ni a chael ein cynnwys ym mhopeth**

Person ifanc

**Mae wedi bod yn fuddiol iawn er mwyn gwella fy hyder a'm llesiant. Diolch am ddarparu rhywle lle galla i ddweud beth sydd ar fy meddwl a rhannu fy marn â'r bobl berthnasol.**

Person ifanc

# Plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi

"Dw i wedi clywed rhieni'n dweud, 'Dw i wedi rhoi bwyd i'r plant, mi wna i fwyta yfory.'"

Ymarferydd Barnardo's Cymru

"Doedd ein gwres ni byth ar fynd yn y gaeaf. Does na ddim digon o arian i dalu amdano fo."

Person ifanc

"Sut alla i fynd allan i chwilio am waith pan alla i ddim fforddio tocyn bws?"

Person ifanc

"Rydych chi'n gwneud popeth sydd yn eich gallu i geisio cael swm sylfaenol o arian er mwyn goroesi. Mae arnoch chi angen arian, ond does yna ddim. Mae arnoch chi angen arian ond does yna unman i'w gael o, ond mae gan rai pobl fwy na digon."

Person ifanc

"Mae arna i eisiau gweithio er mwyn ennill arian. Dydw i ddim eisiau gofyn i fy rhieni bob diwrnod, dydy o ddim yn deg. Mae arna i eisiau cael swydd dda."

Person ifanc

"Alla i ddim mynd drwy'r mis – mae yna gymaint o'r mis ar ôl pan mae'r arian wedi gorffen."

Rhiant

"Dw i erioed wedi gweld pethau cyn waethed â hyn. Mae rhieni yn aml yn gyndyn o siarad ynglŷn â pha mor wael ydy pethau oherwydd bod ganddyn nhw gywilydd, fedran nhw ddim bwydo na dilladu eu plant, na'u cadw nhw'n gynnes. Dim ond pan fyddwn ni'n ymweld â'r cartref rydyn ni'n deall cymaint o anawsterau maen nhw'n eu cael."

Ymarferydd Barnardo's Cymru



# Mae 31% o blant Cymru yn byw mewn tlodi[4]. Mae cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn uwch nag yn yr Alban (24%) a Gogledd Iwerddon (23%), a'r un fath fwy neu lai â'r gyfran yn Lloegr (31%).

Mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi bod yn ystyfnig o uchel ers dros ddegawd.

Er gwaethaf llawer o ymdrechion i leihau tlodi plant, a chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant yn 2024, ni welwyd llawer o newid.


Mae tlodi yn amrywio yn ôl daearyddiaeth, ond mae'n broblem fawr ym mhob rhan o Gymru. Yn 94% o etholaethau Cymru mae 25% neu ragor o blant yn byw mewn tlodi[5].

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru dderbyn y bydd angen i'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y Senedd nesaf fod yn rhai beiddgar, pendant a sylweddol. Mae'n afresymol bod babanod, plant a phobl ifanc yn parhau i fyw â'r caledi, stigma ac ofn sy'n gysylltiedig â thlodi.**

Mewn pleidlais a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Sefydliad Bevan a Barnardo's Cymru, dywedodd 43% o'r rhieni wrthym eu bod yn meddwl y byddai'r cyfleoedd a fyddai ar gael i'w plant pan fyddent yn 18 oed yn waeth na'r cyfleoedd a gawsant hwy[6], tra oedd 26% yn meddwl y byddent yn cael cyfleoedd gwell nag a gawsant hwy . Mae hyn yn dangos effaith negyddol tlodi a phwysau costau byw ar deuluoedd yng Nghymru heddiw. Rhaid i ni roi optimistiaeth yn ôl i deuluoedd yng Nghymru a rhoi gobaith iddynt ar gyfer y dyfodol.

Mae Barnardo's Cymru wedi amlinellu ymyriadau polisi y mae'n rhaid eu gweithredu ar frys. Credwn hefyd fod yn rhaid gwneud newidiadau strwythurol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn trefnu ei gwaith yn y maes hwn.

## Gan feddwl am ddyfodol eich plentyn/plant, ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n cael cyfleoedd gwell, gwaeth, neu rywbeth yn debyg pan fyddant yn 18 oed i'r hyn a gawsoch chi pan oeddech chi'r oed hwnnw?




Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan YouGov ar ran Sefydliad Bevan a Barnardo's Cymru

[4] https://research.senedd.wales/research-articles/a-challenging-picture-tackling-poverty-and-improving-living-standards/
[5] AHC, (2025) End Child Poverty estimates of local child poverty rates
[6] Bainton A Evans S and Winckler V 2024 Ending Poverty in Early Years Bevan Foundation
[7] Policy in Practice 2025 An examination of the impact of policy interventions designed to reduce poverty in Wales

**• Cynllun Taliad Plant ar gyfer Cymru**

Mae buddsoddi mewn rhwyd ddiogelwch i gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi wedi cael effaith amlwg ar dlodi plant mewn rhannau eraill o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno taliad plant er mwyn lleihau pwysau ariannol ar deuluoedd. Byddai taliad o'r fath, wedi'i fodelu ar ddull gweithredu'r Alban, yn darparu cefnogaeth ariannol uniongyrchol, wedi'i thargedu tuag at deuluoedd. Mae Taliad Plant yr Alban (£26.70 y plentyn bob wythnos) yn cael ei ganmol am leihau tlodi plant ac mae'n cael ei gefnogi'n eang gan grwpiau gwrth-dlodi. Mae Policy in Practice yn amcangyfrif y gallai Taliad Plant yng Nghymru sicrhau gostyngiad o bron i chwarter yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi, ac y byddai o gymorth mawr er mwyn cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi plant[7].


Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi amcangyfrif na fydd cyflogaeth a thwf economaidd yn cael llawer o effaith ar dlodi cymharol[8], ac mae hynny'n dangos yn glir bod angen rhagor o ymyriadau gan y llywodraeth.

Mae polau ar gyfer teuluoedd hefyd yn dangos rhai o'r costau mwyaf heriol i rieni, a lle gallai taliad plant gael effaith[9].

**• Cyflwyno Grant Babi Newydd i helpu teuluoedd ar incwm isel i fforddio cyfarpar hanfodol[10].**

Mae croesawu babi newydd yn rhoi pwysau ariannol mawr ar deuluoedd incwm isel, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf pan fydd absenoldeb rhiant, llai o enillion, a chostau a delir ymlaen llaw yn digwydd yr un pryd. Byddai Grant Babi Newydd yn darparu taliad ariannol untro i helpu i dalu'r costau hanfodol sy'n gysylltiedig â genedigaeth plentyn—megis cot, pram, dillad babi, a chyfarpar bwydo. Mae Grant Dechrau Gorau'r Alban – Taliad Beichiogrwydd a Babi, sy'n cynnig hyd at £707.25 ar gyfer plentyn cyntaf a £353.65 ar gyfer plant dilynol, wedi llwyddo i leihau tlodi plentyndod cynnar a straen ariannol (Llywodraeth yr Alban, 2023). Gallai cynllun tebyg yng Nghymru helpu i liniaru amddifadedd sylweddol ym mlwyddyn gyntaf plentyn, cyfnod hollbwysig ar gyfer datblygiad gwybyddol, corfforol, ac emosiynol. Dylai unrhyw gynllun a ddatblygir yng Nghymru fod ar gael i'r rhai sydd ar fudd-daliadau cymwys ac i'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael cyllid cyhoeddus.

**Pa gostau sy'n gysylltiedig â magu eich plant yw'r rhai anoddaf i'w fforddio? (% o'r atebion)**




[8] The Joseph Rowntree Foundation 2025 Economic and employment growth alone will not be enough to reduce poverty levels
[9] Bainton A Evans S and Winckler V 2024 Ending Poverty in Early Years Bevan Foundation
[10] For more information on this: Bainton A Evans S and Winckler V 2024 Ending Poverty in Early Years Bevan Foundation

- **Cyflwyno'r Cynllun Bwndel Babi i bawb**

Rydym yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd i gyflwyno'r Cynllun Bwndel Babi yng Nghymru, gan ddechrau gyda'r rhai sydd ei angen fwyaf. Dylai llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod y cynllun ar gael i bob teulu newydd yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.

- **Amlinellu map ffyrdd, yn cynnwys amseroedd, ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob ysgol uwchradd**

Mae miloedd o deuluoedd wedi elwa'n fawr o'r cynnig cynhwysol llwyddiannus o brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd, ac mae'r cynllun wedi rhoi Cymru ar y blaen i wledydd eraill y DU. Mae'n bryd i ni gydnabod bod plant mewn addysg uwchradd yr un mor debygol o fod yn mynd i'r ysgol eisiau bwyd, ac yn cael anhawster i ddysgu o ganlyniad i hynny. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid er mwyn cymryd camau pendant i sicrhau bod hyn ar gael i bob ysgol uwchradd yn nhymor nesaf y Senedd.


- **Rhoi trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc**

Yn ystod y senedd hon, dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn chwalu'r rhwystrau ariannol y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at addysg, hyfforddiant, cysylltiad a chynifer o rannau eraill o'u bywydau.

Roedd cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus am ddim yn un o'r syniadau a godwyd amlaf gan bobl ifanc, a ddywedodd wrthym yn rheolaidd fod cost trafnidiaeth yn eu dal yn ôl.

- **Mabwysiadu targedau tryloyw, uchelgeisiol ar gyfer dileu tlodi yng Nghymru**

Dylai llywodraeth nesaf Cymru fabwysiadu targedau cyraeddadwy, uchelgeisiol ar gyfer dileu tlodi plant yng Nghymru. Dim ond â mesurau a thargedau tryloyw i anelu tuag atynt y gellir monitro cynnydd yn effeithiol a sicrhau llwyddiant buddsoddiad. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod holl adrannau'r llywodraeth i bob pwrpas yn cael eu dwyn i mewn i'r ymdrech o fynd i'r afael â thlodi.



## Cronfa costau Byw Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's wedi sefydlu Cronfa Tlodi Plant i ddarparu cefnogaeth mewn argyfwng i deuluoedd sy'n cael anhawster. Rhwng Tachwedd 2024 ac Ebrill 2025 cymeradwywyd 161 o geisiadau yng Nghymru â gwerth cyfartalog o £246. Aeth 41% o'r cyllid tuag at fwydo teuluoedd ac aeth 29.6% tuag at ddarparu mynediad at ddillad addas e.e. cotiau cynnes ar gyfer y gaeaf. Gwariwyd symiau sylweddol hefyd ar ddarparu cyfarpar a dodrefn, yn ogystal â gwella gweithgareddau. Aeth gweddill y gronfa tuag at ddarparu mannau cynnes, cynyddu diogelwch a darparu mynediad at addysg neu hyfforddiant.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut mae'r gronfa hon yn cael ei defnyddio yng Nghymru:

Fel rhan o ymyriad iechyd meddwl, ac ychydig o waith 'bag pryderon' gyda therapydd, dywedodd plentyn ifanc bod ei hofn tywyllwch wedi gwaethygu yn ddiweddar. Roedd hyn oherwydd bod ei golau nos wedi torri yn ddiweddar a doedd ei Mam ddim yn gallu fforddio cael un arall yn ei le neu ei drwsio. Llwyddodd staff Barnardo's i gael gafael ar gyllid i gael golau nos newydd yr un diwrnod a gwneud gwahaniaeth mawr ar unwaith i fywyd y plentyn.

# Teuluoedd sydd angen cefnogaeth i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant



"Mae diffyg cydweithio ac mae'n teimlo'n ddatgysylltiedig, fel pe bai'n fater o chi a nhw, yn hytrach na chydweithio – nid yw rhieni'n cael eu cefnogi i wneud newidiadau, yn hytrach maen nhw'n cael gwybodaeth feirniadol ac anghyson gan wahanol unedau mamau a babanod."

Barnardo's Cymru practitioner

"Mae gofalwyr ifanc yn achubiaeth i blant eraill."

Rhiant

"Mae argyfwng ym maes recriwtio gofalwyr maeth, alla i ddim ei alw o'n ddim byd ar wahân i hynny."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

"Mae arnom angen cymaint mwy na dim ond y plaster sy'n cael ei gynnig. Mae fel trio trwsio peipen ddŵr wedi byrstio drwy roi eich llaw dros y twll."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

"Yn lle ariannu cymorth mewn argyfwng bob amser, mae angen i ni fuddsoddi mewn trwsio'r system a dorrodd bobl."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

'Dim ond mewn un ardal mae 'Babi a Fi' ar gael ac mae hyn yn gyfyngol iawn."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

"Gallai plant sydd ag awtistiaeth neu ADHD fod â'r un diagnosis neu label, ond mae pob plentyn yn unigolyn. Mae eu profiadau'n hollol wahanol, ac mae angen i ni gofio hynny."

Rhiant

"Mae angen i ni feddwl y tu allan i'r bocs a thrin pawb fel person drwy ei hawl ei hun."

Person ifanc

"Mae'r trothwyon mor uchel nes ei bod yn amhosibl eu cyrraedd."

Ymarferydd Barnardo's Cymru

**Yn yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar grwpiau o blant a theuluoedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant. Gall hyn gynnwys teuluoedd lle mae plentyn ar ffiniau gofal, plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gofalwyr ifanc a grwpiau eraill.**

# Teuluoedd ar ffiniau gofal



Rhwng 2003 a 2022, cynyddodd y gyfradd ofal yng Nghymru 83%[11] . Mae Cymru yn gyson wedi bod â mwy o blant sy'n derbyn gofal ym mhob 10,000 o'r boblogaeth na gweddill y DU.

Mae data yn dangos y canlynol am Gymru:

- Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, roedd 7,198 o blant yn derbyn gofal, ychydig yn uwch na'r 7,188 y flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd hirdymor ar i fyny.
- Roedd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2024 28.4% yn uwch nag yr oedd ddegawd yn ôl.
- Roedd y gyfradd ym mhob 10,000 o blant dan 18 oed yn 116.1 yn 2024, ychydig yn uwch na'r gyfradd yn 2023 (116.0 ) a'r gyfradd uchaf ond un erioed.
- Roedd 4.7% o'r plant a oedd yn derbyn gofal yn blant ar eu pen eu hunain a oedd yn ceisio lloches, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed[12].

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi bod angen cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, os yw hynny'n ddiogel ac er pennaf les y plentyn. Mae'r data hyn yn dangos bod yr angen am gefnogaeth ar ffiniau gofal – i'r teuluoedd hynny lle mae risg y gallai plentyn ddod i ofal – yn cynyddu ac yn gymhleth.

Mae'n bwysig bod llywodraeth nesaf Cymru yn cymryd camau beiddgar i hybu ymyriad cynnar a chefnogaeth atal i deuluoedd yng Nghymru er mwyn eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, pan fydd hynny'n ddiogel. Dylai hyn gynnwys dull partneriaeth sy'n dwyn ynghyd y gorau o'r hyn sydd gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector i'w gynnig i deuluoedd, ac yn meithrin arloesi wrth ddarparu gwasanaeth.

Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn iawn i rai plant ddod i ofal. Fodd bynnag, credwn y gallwn wneud mwy er mwyn nodi a helpu teuluoedd i gefnogi plant yn ddiogel heb fod angen gweithdrefnau gofal. Dylid rhoi pwyslais hefyd ar ddarparu cefnogaeth i rai teuluoedd y mae eu plant wedi cael eu rhoi mewn gofal i wneud y newidiadau sy'n ofynnol er mwyn iddynt allu cael eu hailuno'n ddiogel â'u plant.

**Mae Barnardo's Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i newid gêr a thargedu cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl tuag at atal y problemau sydd, os gadewir iddynt waethygu, yn arwain at dderbyn plentyn i ofal.**

[11] Comisiwn Ymchwil y Senedd Plant sydd â Phrofiad o Ofal – Briff Ystadegol 2024
[12] Llywodraeth Cymru (2024) Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, Ebrill 2023 i Fawrth 2024 (ystadegau swyddogol mewn datblygiad)



## Dylai Llywodraeth Cymru:

- **Ymrwymo i hawl statudol i blant, pobl ifanc a theuluoedd dderbyn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal gan eu hawdurdod lleol, wedi'u cynllunio i gefnogi teuluoedd a, lle bo'n bosibl, cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel a chadw plant allan o ofal awdurdod lleol.**

Dylai hyn ymwreiddio'r fframwaith Ymyrryd yn Gynnar ac Atal a'r diffiniad, gan ei roi ar sylfaen statudol a gwneud darpariaeth mewn awdurdodau lleol i weithredu hyn.

Gwyddom fod gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal yn gallu trawsnewid bywydau teuluoedd, ac mae awdurdodau lleol yn gwneud popeth sydd yn eu gallu i ddiwallu anghenion teuluoedd. Ond oherwydd cyllidebau tynn ac anawsterau capasiti, mae'r gallu i gael mynediad at y gwasanaethau hyn pan fydd eu hangen yn dameidiog ar y gorau, heb gynnig unffurf ledled Cymru i warantu bod pob teulu yng Nghymru yn gallu elwa o'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen.

Dylid cael safon glir o gefnogaeth y mae gan bob teulu yng Nghymru hawl iddi. Mae'r Fframwaith Ymyrryd yn Gynnar ac Atal yn amlinellu sut y dylai hyn edrych. Credwn y dylai llywodraeth nesaf Cymru fod yn ddigon dewr i roi hyn ar sail statudol, gan roi hawl i deuluoedd gael mynediad at y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, pan fydd arnynt ei hangen. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad i ariannu awdurdodau lleol yn llawn i ddarparu'r dull gweithredu hwn.

- **Mabwysiadu argymhellion 'Os nad nawr, pryd?' gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Ar ôl ymgysylltu ar raddfa fawr â phlant a theuluoedd yng Nghymru, argymhellodd y pwyllgor nifer o fesurau a fyddai'n trawsnewid gofal cymdeithasol plant. Mae angen archwilio llawer o'r rhain ymhellach fel bod modd eu gweithredu ar gyfer teuluoedd.

- **Gwarantu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaeth Reflect annibynnol, ag adnoddau digonol, i'w gynnal neu ei ailgyflwyno ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru**

Cafodd Reflect ei gyflwyno ledled Cymru yn 2018, yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Mae tystiolaeth bod y rhaglen arloesol hon wedi llwyddo i leihau nifer y plant sy'n dod i ofal, tra'n cefnogi rhieni i adfer yn dilyn trawma colli plentyn o'u gofal yn barhaol a dechrau ailadeiladu eu bywydau. Yn anffodus, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ddarpariaeth Reflect wedi'i thynnu yn ôl mewn nifer o awdurdodau lleol oherwydd pwysau ar gyllidebau, ac mae hyn wedi arwain at lai o ddarpariaeth i rieni. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru ariannu awdurdodau lleol yn briodol i gynnig Reflect fel gwasanaeth hirdymor, annibynnol.

Sbotolau ar Wasanaeth

### Babi a Fi, Casnewydd

Mae Babi a Fi yn brosiect arloesol sydd wedi esblygu o Bartneriaeth Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru sy'n darparu cefnogaeth ddwys cyn ac ar ôl geni i deuluoedd lle mae risg y byddai babi'n cael ei gymryd i ofal ar adeg ei eni.

Mae Babi a Fi yn gweithio gyda rhieni er mwyn creu man diogel i deuluoedd archwilio problemau a nodwyd a defnyddio strategaethau amrywiol a dulliau therapiwtig i weithio mewn dull sy'n seiliedig ar empathi gyda rhieni a'u grymuso i gyflawni eu nodau o gadw eu teulu gyda'i gilydd. Mae Babi a Fi yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar berthynas, i weithio gyda theuluoedd mewn ffordd hyblyg, sy'n ystyriol o drawma.

Mae ymarferwyr yn cydnabod pwysau rhianta ochr yn ochr â phrosesau amddiffyn plant ac yn hwyluso ymgysylltu â gwasanaethau ehangach megis camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd meddwl, ac yn y blaen, i gynorthwyo rhieni i oresgyn rhwystrau sy'n atal rhianta llwyddiannus.

Mae llawer o lwyddiant Babi a Fi yn deillio o'i annibyniaeth, a'i ddull seiliedig ar berthynas, sy'n gwneud y trydydd sector yn allweddol wrth ei ddarparu fel ymyriad effeithiol.

- Ers ei sefydlu yn 2019, gwelwyd gostyngiad o 60% yn nifer y gweithdrefnau gofal a roddwyd ar enedigaeth.
- O'r babanod sydd wedi mynd adref, roedd 100% wedi cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant erbyn iddynt fod yn flwydd oed.
- Mae teuluoedd Babi a Fi yn treulio llai o amser ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mlwyddyn gyntaf eu hoes o'i gymharu â babanod cymharol.

"Dw i'n teimlo mod i wedi cael fy ngweld fel unigolyn ac fel y person ydw i rŵan, nid popeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Dw i ddim yn teimlo mod i wedi cael fy meirniadu oherwydd popeth ddigwyddodd yn y gorffennol" – rhiant

Argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dylid cyflwyno Babi a Fi ledled Cymru yn 'Os nad nawr, pryd? Derbyniodd gwasanaethau i blant â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor. Fodd bynnag, ni weithredwyd ar hyn erioed, ac mae hynny'n golygu bod teuluoedd y tu allan i Gasnewydd yn parhau i fethu â derbyn y gefnogaeth hanfodol hon. Rydym yn annog llywodraeth nesaf Cymru i fuddsoddi yn y model ataliol hwn sy'n helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel

Sbotolau ar Wasanaeth

### Reflect

Mae Reflect yn cynnig cefnogaeth therapiwtig, ymddygiadol, ac ymarferol, sy'n ystyriol o drawma i fenywod a'u partneriaid sydd wedi profi, neu sy'n wynebu risg o, fynd â phlant o'u gofal fwy nag unwaith. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio er mwyn ymgysylltu â theuluoedd tua diwedd achosion llys ac mae'n darparu ymyriad dwys 12 mis. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd seiliedig ar ymddiriedaeth drwy allgymorth cadarnhaol, sesiynau grŵp cymheiriaid misol, a chydlynu ymatebion Amlasiantaeth i ddiwallu anghenion cymhleth teuluoedd. Mae Reflect hefyd yn darparu canllawiau yn ymwneud â phrosesau mabwysiadu a threfniadau cyswllt, gan rymuso rhieni i adennill eu llais a'u hyder ar adegau anhygoel o anodd.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi lle canolog i ymwybyddiaeth o drawma, a deall yr heriau emosiynol a seicolegol y mae rhieni'n eu hwynebu. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i Reflect gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra sy'n hybu iachau, gwydnwch, a gwelliannau ymarferol mewn bywyd, gan helpu rhieni i ganfod eu ffordd o gwmpas system a all yn aml deimlo fel pe bai'n eu llethu.

"Mae wedi fy achub i. Rhoddodd i mi'r sgiliau i symud ymlaen drwy adeg anoddaf fy mywyd. Grymusodd fi, rhoddodd lais i mi, a gwnaeth i mi deimlo'n obeithiol eto." – rhiant

"Pe na bawn i wedi dod o hyd i'r gwasanaeth, fyddwn i ddim yn gwybod sut oedd fy mab, na sut i gadw mewn cysylltiad. Daeth y gefnogaeth ar yr adeg iawn—pan oeddwn i wedi rhoi'r ffidil yn y to. Fe wnaethon nhw fy helpu i ysgrifennu llythyrau, trefnu cyfarfodydd, ac ailadeiladu perthynas gadarnhaol â rhieni mabwysiadol fy mab. Fe wnaethon nhw ddangos i mi nad oedd bai ar neb ac fe wnaethon nhw fy helpu i ddod o hyd i heddwch a gobaith." - rhiant

Mae Reflect a Babi a Fi hefyd wedi gweithio gyda'i gilydd fel siwrnai bwerus i deuluoedd sydd wedi cael eu cefnogi i adfer a gwella ar ôl i blentyn gael ei gymryd o'u gofal, cyn mynd ymlaen i dderbyn cefnogaeth i helpu i gadw eu plant yn eu gofal yn y dyfodol.

**Sbotolau ar Wasanaeth**

**Rapid Response, Newport**

Mae'r gwasanaeth Ymateb Cyflym yn cynnig ymyriad dwys chwe wythnos sy'n ystyriol o drawma i deuluoedd sydd mewn perygl o chwalu, â'r nod o atal derbyniadau diangen i'r system ofal.

Gweithiodd y gwasanaeth Ymateb Cyflym â 140 o bobl ifanc yn 2023-2024, lle'r oedd yr awdurdod lleol wedi asesu eu bod yn wynebu risg uwch o deulu'n chwalu a'r person ifanc yn dod i ofal awdurdod lleol. Mae hyn yn gynnydd o 36% ers y flwyddyn flaenorol.

Allan o'r achosion wedi'u cau (cyfanswm o 100 o blant i gyd) arhosodd 94% (94) o'r plant hyn gartref neu cawsant fynd yn ôl adref oherwydd yr ymyriad.

**"Rydw i mor ddiolchgar am y cymorth ges i. Fel teulu roedden ni mewn lle ofnadwy ac ar adeg yr atgyfeiriad ro'n i eisiau i'm plentyn fynd i ofal. Ro'n i wedi cyrraedd y gwaelod un a do'n i ddim yn gwybod sut i newid pethau. Ond ar ôl cael cefnogaeth rwy'n teimlo mod i'n gallu ei gadw e'n ddiogel ac allwn i ddim dychmygu ei weld e'n mynd i ofal."**

Rhiant a gefnogwyd gan Ymateb Cyflym



# Beth mae ymyriadau ffiniau gofal yn gallu ei gyflawni

## stori Abbie

Roedd Abbie wedi profi cam-drin domestig rhwng ei rhieni ers pan oedd yn chwech oed; gwelodd ei mam yn cael ei hanafu gan ei thad ac roedd yn cael ei dal yn y canol weithiau wrth iddi geisio ymyrryd.

Wrth i Abbie fynd yn hŷn, dechreuodd beidio â mynd i'r ysgol a mynd ar goll o'i chartref. Yn aml iawn, byddai Abbie yn teithio o Gymru i Loegr gydag oedolion gwrywaidd a oedd â hanes o droseddu ac a fyddai'n camfanteisio'n rhywiol arni yn gyfnewid am gyffuriau ac alcohol.

Pan oedd yn 15 oed, dechreuodd Abbie ymwneud â Katie, un o weithwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Barnardo's, a adeiladodd berthynas gref a chadarnhaol gydag Abbie. Roedd Abbie yn ymddiried digon yn Katie i ddatgelu bod ei thad yn bygwth ei hanfon dramor i briodi aelod o'r teulu oherwydd ei hymddygiad gartref.

Rhoddwyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod a Gorchymyn Amddiffyn Brys gan y llys ac aeth Abbie i fyw gyda rhieni maeth i'w chadw'n ddiogel. Yn anffodus, cafodd Abbie anhawster â'r symud hwn ac roedd yn gadael ei chartref maeth yn rheolaidd ac yn tueddu i fynd yn ôl gartref at ei mam.

Ar ôl llawer iawn o gefnogaeth ac ymyriadau, aseswyd ei bod yn ddiogel i Abbie fynd yn ôl i fyw gartref gyda'i mam tra oedd gorchmynion troseddol yn atal ei thad rhag dod i'r cartref a gweld Abbie.

Yn 16 oed, setlodd Abbie mewn perthynas newydd gydag Adam. Ar ôl darganfod eu bod yn disgwyl eu plentyn cyntaf, cyfeiriwyd Abbie ac Adam at y Gwasanaeth Babi a Fi i'w cynorthwyo i bontio i fywyd fel rhieni a gofalu am eu babi yn ddiogel. Aeth Abbie ac Adam ar raglen rianta gynenedigol Camau Babi lle dysgasant am bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar, datblygiad ymennydd babanod a sut i ddarllen ac ymateb i anghenion emosiynol eu babi.

Roeddent wrth eu bodd ag amgylchedd y grŵp ac yn dangos cyffro gwirioneddol a buddsoddiad mewn bod yn rhieni. Wrth i Abbie deimlo mwy a mwy o gysylltiad â'r babi yn ei chroth, lleihaodd ei hymddygiadau cymryd risg. Stopiodd gymryd cyffuriau caled, dechreuodd ddilyn arferion iach, ac roedd bob amser yn gwneud yn siŵr ei bod yn mynd i'w hapwyntiadau gyda'r bydwragedd.

Roedd y newid yn ffordd o fyw ac agweddau Abbie yn golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn teimlo'n hyderus y gallai Abbie ac Adam ofalu am eu babi â phecyn cefnogaeth yn ei le gan Babi a Fi. Felly pan anwyd Mila ym mis Hydref 2021 roedd Abbie ac Adam yn gallu mynd â hi adref; llwyddiant mawr y gweithiodd y ddau'n galed iawn i'w sicrhau.

Arweiniodd y paratoadau a wnaethpwyd gan Abbie ac Adam at siwrnai eni ddirwystr, a nododd y gweithwyr pa mor gysylltiedig, ymatebol, a sensitif oeddent fel rhieni. Daliodd Abbie i fwydo Mila ar y fron ac mae Adam wedi gwirioni ar ei dywysoges fach, ac yn defnyddio ei lais cyfarwydd i ganu iddi a'i thawelu.

Mae Mila yn dod yn ei blaen yn dda, ac yn dangos arwyddion calonogol bod ei rhieni wedi'i gwneud yn ganolbwynt eu byd ac yn gosod y sylfeini ar gyfer canlyniadau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, a gwybyddol iach.


Mae profiad Abbie yn werthfawr oherwydd o safbwynt ystadegol roedd popeth yn ei herbyn. Canfu ymchwil fod 1 o bob 4 babi sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru wedi'i eni i fam sydd hefyd wedi'i magu mewn gofal, sy'n golygu bod Abbie, fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, yn fwy tebygol o wynebu risg y byddai ei babi'n cael ei gymryd oddi arni a'i fabwysiadu. Drwy gael y gefnogaeth iawn, wedi'i darparu'n fuan, gall pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fod yn rhieni gwych.

# Gofalwyr Ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn wynebu heriau sylweddol, ac yn aml iawn nid yw'r bobl sydd o'u cwmpas yn gweld yr heriau hyn. Mae gofalwyr ifanc yn ein gwasanaethau yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u hanghofio. Maent yn teimlo eu bod yn chwarae rhan fawr iawn drwy ddarparu gofal hanfodol o'r fath, a chadw'r economi a gofal cymdeithasol i fynd, ond yn anaml iawn y mae hyn yn cael ei gydnabod.

## Dylai llywodraeth nesaf Cymru:

- **Gynyddu ymwybyddiaeth o bobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys brodyr a chwiorydd plant ag anableddau sy'n teimlo effaith hyn ar eu teulu.**
- **Parhau â'r ymrwymiad i'r ŵyl gofalwyr ifanc, a gwella'r hawliau a'r gefnogaeth a ddarperir drwy gerdyn adnabod gofalwr ifanc.**



# Plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Wrth siarad â phlant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth ac ADHD, y thema gyffredinol oedd eu bod nhw a'u teuluoedd yn gorfod brwydro i gael y gefnogaeth y mae ganddyn nhw hawl iddi.

Dywedodd plant ag awtistiaeth ac ADHD wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel plant bach pan oedd gweithwyr proffesiynol yn gwybod bod ganddynt ddiagnosis, ond yr un pryd, roeddent yn gyfrifol am addysgu pobl o'u cwmpas am eu niwroamrywiaeth.

Ym maes addysg, roedd plant yn cyfeirio at ymateb tameidiog, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd. Roedd plant yn siarad am werth Cynlluniau Datblygu Unigol pan oeddent yn cael eu defnyddio'n briodol a'u cyfathrebu, ond nid oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn.

Dywedodd un plentyn

**"Bob tro roedd gennym ni athro llanw, doeddwn i ddim yn mynd i'r wers. Doedd neb yn dweud wrthyn nhw am fy Nghynllun Datblygu Unigol, a fydden nhw ddim yn fy neall i, felly doedd dim pwrpas."**

O ran plant â diagnosis o awtistiaeth neu ADHD, neu sydd ar y llwybr tuag at un, efallai y byddant yn wynebu amseroedd aros hir am gefnogaeth briodol gan yr ysgol ac y byddant yn gweld amserlenni llai oherwydd hyn. Gall hyn roi pwysau mawr ar rieni/gofalwyr sydd â llai o allu i weithio a chael mynediad at seibiant, tra mae plant yn colli addysg, cymdeithasoli a chyfleoedd eraill.

Dywedodd rhieni plant ag anghenion ychwanegol eu bod yn teimlo pwysau toriadau i gyllidebau ysgolion yn ddrwg iawn, yn enwedig pan oedd toriadau'n cael eu gwneud i gefnogaeth llesiant. Disgrifiodd un rhiant sut roedd ei blentyn oed ysgol gynradd wedi stopio bwyta a chysgu am gyfnod ar ôl i'w gefnogaeth 'Anogaeth' gael ei thorri yn yr ysgol. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod ysgolion yn cael yr adnoddau y mae arnynt eu hangen i sicrhau bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth y mae arno ei hangen.



## Dylai Llywodraeth Cymru:

- **Sicrhau bod Cynllun Datblygu Unigol gan bob dysgwr sydd angen un, a bod y cynllun yn cael ei gyfathrebu'n dda i'r holl staff (gan gynnwys staff llanw) ac yn adlewyrchu anghenion plentyn yn ddigonol. Dylid cryfhau canllawiau ar hyn.**

Dylai hyn gynnwys deall bod y CDU yn perthyn i'r plentyn, nid i'r ysgol neu'r athro/athrawes, sy'n golygu bod gan y plentyn berchnogaeth drosto, y gall ei newid a'i ddiweddaru, a'i fod yn gweithredu fel offeryn i'w rymuso.

- **Sicrhau bod lefel sylfaenol o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ADY a niwroamrywiaeth yn ofynnol ar gyfer staff ysgolion, a bod yr ysgolion yn cael eu cefnogi a'u hariannu i ymwreiddio hyn.**

- **Gosod uchafswm priodol ar gyfer yr amser aros ar gyfer lleoliad ysgol. Dylai hefyd fod yn ofynnol i ysgolion ddarparu cynnig gweithredol i deuluoedd tra nad yw plentyn yn gallu mynychu ysgol ar sail amser llawn, a ddylai gynnwys cynllun pontio ar gyfer dychwelyd i addysg a sicrhau bod y plentyn yn derbyn ei holl hawliau a hawliadau, megis prydau ysgol am ddim.**

- **Datblygu cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd a thimau'r blynyddoedd cynnar a fydd wedi cefnogi teuluoedd a deall eu plant wrth iddynt bontio i'r ysgol a thîm nyrsio'r ysgol.**

- **Sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at gefnogaeth arbenigol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg a'r Saesneg, lle bynnag y maent yn byw.**

- **Dylai cefnogaeth teulu cyfan fod wrth graidd y cynnig i deuluoedd a dylai fod yn gefnogaeth hirdymor i'r rhai sydd ei hangen. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth i frodyr a chwiorydd.**

- **Ariannu pob ysgol i ddarparu Swyddog Cyswllt Teuluoedd i gefnogi presenoldeb a llesiant mewn ysgolion.**

- **Darparu hwb ieuenctid ym mhob cymuned, i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd mewn un lle.**

Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cyngor neu gefnogaeth – boed hynny'n help â gyrfaoedd, iechyd meddwl, neu hyd yn oed bethau sylfaenol fel golchi dillad a choginio pryd poeth. Mae rhwystrau megis cost, stigma, ac anhawster defnyddio gwasanaethau ffôn yn gwneud mynediad yn anos. Dywedodd pobl ifanc y byddent yn gwerthfawrogi man croesawus, diogel a hygyrch yn eu cymuned, lle gallent alw heibio i gael cefnogaeth a datblygu hyder.

- **Gwarantu y gall pob person ifanc gyflawni ei uchelgeisiau ar ôl gadael yr ysgol, drwy sicrhau bod llwybrau mwy amrywiol allan o'r ysgol.**

Dywedodd plant ac ymarferwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i geisio cydymffurfio â model 'un maint yn ffitio pawb' pan fydd yn fater o gyrraedd lle bynnag maen nhw eisiau bod ar ôl gorffen ysgol. Maent yn disgrifio llawer o gyfleoedd fel 'elitaidd', neu'n dibynnu ar gysylltiadau teuluol, ac roeddent yn teimlo nad oeddent yn hygyrch iddyn nhw. Dylai llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda phobl ifanc a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi er mwyn cynllunio cynnig ôl-16 eang sy'n darparu ar gyfer pob person ifanc a'i uchelgeisiau.

# Plant mewn gofal a gadawyr gofal

"Mae prinder llety 1 ystafell wely, a dyma beth mae ar bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ei angen pan fyddan nhw'n pontio i fyw'n annibynnol. Mae pobl ifanc yn gweithio'n galed i wneud cynnydd ond maen nhw'n colli brwdfrydedd yn gyflym pan fyddwn ni'n methu eu helpu nhw i gael y cartrefi mae arnyn nhw eu hangen."

Ymarferydd Barnardo's

"Mae angen i chi edrych ar yr adroddiad ar ddiwygiadau radical ar gyfer gofal. Efallai eich bod yn llywodraeth newydd ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd."

Person ifanc

"Mae arnom angen syniadau mwy arloesol."

Person ifanc

"Rwy'n clywed yr ymadrodd 'methu ag ymgysylltu' gan wasanaethau yn rhy aml. Nid dyma'r ffordd iawn o gefnogi plentyn a dyw e ddim yn deg."

Ymarferydd Barnardo's

"Maen nhw'n dweud wrthyn ni am ymddiried mewn system sydd wedi eich gadael chi'n doredig."

Person ifanc



Yn achos dros 7000 o fabanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru, eu hawdurdod lleol, a thrwy hynny, Llywodraeth Cymru yw eu rhiant corfforaethol.

Yn nhymor y Senedd ddiwethaf, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno ‘diwygiadau radical’ i brofiadau plant o fod mewn gofal.

Bydd angen camau pendant eraill yn y tymor nesaf er mwyn sicrhau bod plant yng Nghymru yn teimlo o ddifri bod hyn wedi’i gyflawni, a’u bod nhw’n teimlo’r buddion.

- **Gwella cefnogaeth i deuluoedd lle darperir gofal gan berthynas ac i blant sydd dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.**

Dylai hyn gynnwys ymrwymo i sicrhau bod pob teulu sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael rhyw lefel o gefnogaeth ariannol a chreu isafswm statudol ar gyfer hyn.

Dylid cynnig cefnogaeth gofleidiol drwy’r awdurdod lleol i deuluoedd ledled Cymru er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a llwyddiant gofal gan berthynas neu leoliad Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Dylai’r gefnogaeth hon fod yn gefnogaeth arbenigol o safon a ddarperir yn annibynnol lle bynnag y bo modd. Bydd angen i awdurdodau lleol gael adnoddau priodol i gynnig y gefnogaeth hon – yn gyfannol ac yn ariannol.

- **Gosod y Siarter Rhianta Corfforaethol ar sylfaen statudol.**

Bwrw ymlaen â’r cynnydd a wnaethpwyd yn nhymor y Senedd hon a gosod y Siarter Rhianta Corfforaethol ar sylfaen statudol er mwyn sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth glir o’u rhwymedigaethau a bod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu gweld yn glir beth yw eu hawliau.

- **Datblygu darpariaeth gefnogaeth gofleidiol, gyfannol, genedlaethol i bobl ifanc mewn gofal, a rhai sy’n gadael gofal, gan eu cefnogi am dipyn ar ôl iddynt ddod yn oedolion a’u helpu i gyflawni eu huchelgeisiau, â’r holl gariad a chefnogaeth y disgwylid i riant ei roi.**

Dylai hyn gynnwys darpariaeth lety gynhwysfawr â buddsoddiad mewn lleoliadau ‘Pan fydda i’n Barod’ a hyfforddiant i ofalwyr maeth, ynghyd â buddsoddiad mewn llety pontio a hyfforddiant i bobl ifanc gael cefnogaeth ychwanegol pan fyddant yn symud i fyw’n annibynnol. Dylai dod yn 18 oed fod yn adeg gyffrous ym mywyd person ifanc, nid yn ddibyn sy’n eu gadael yn ofnus ac yn ansicr ynglŷn â’r gefnogaeth y byddant yn ei chael ar ôl hynny.

Dylai’r ddarpariaeth genedlaethol hon hefyd fynd i’r afael â’r prinder dybryd o letyau symud ymlaen addas sy’n rhwystr mawr i ddyheadau pobl ifanc a’r cynnydd y maent yn gweithio’n galed i’w wneud.

Dylid defnyddio canfyddiadau’r gwerthusiad peilot incwm sylfaenol hefyd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y dylai cefnogaeth i rai sy’n gadael gofal edrych yn y dyfodol. Dylai’r gwerthusiad hwn hefyd gynnwys dadansoddiad penodol o’r goblygiadau i blant ar eu pen eu hunain a gafodd fynediad i’r cynllun.

- **Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu cael mynediad at y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, drwy gyflwyno hawl statudol i gael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl gan eu hawdurdod lleol, sy’n gwarantu mynediad at wasanaethau lle nad yw person ifanc dan ofal CAMHS a lle mae arno angen cefnogaeth iechyd meddwl.**

Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi wynebu trawma a chynnwrf mawr yn eu bywydau yn aml, ac o ganlyniad byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddeddfu am hawl statudol i gefnogaeth iechyd meddwl i bob person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru.

Roedd Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn galw am:

“...hawl statudol i ofal therapiwtig sy’n ystyriol o drawma ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rhaid i’r gofal therapiwtig hwnnw fod yn wasanaeth annibynnol ac ar wahân i’r gwasanaethau presennol, megis CAMHS. Rhaid i’r cymorth hwn gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sydd â dealltwriaeth ddofn o effaith barhaol trawma. Rhaid iddo fod ar gael i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal o’r eiliad y mae’n mynd i mewn i’r system ofal hyd at – o leiaf – pan fydd yn peidio â chael ei ddiffinio fel rhywun sy’n gadael gofal.”

Byddem yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i fabwysiadu’r argymhelliad hwn er mwyn darparu rhwyd ddiogelwch ystyrlon i bobl ifanc mewn gofal sy’n haeddu gwybod bod cefnogaeth ar gael iddynt pan fydd arnynt ei hangen.

- **Ymrwymo i, a chyhoeddi, cyllid Dileu Elw ar gyfer 2026 – 2030 er mwyn ariannu’r cyfnod pontio llawn a chefnogi cyrff cyhoeddus a mudiadau’r trydydd sector i reoli’r pontio i gyllid nid-er-elw ar gyfer gofal cymdeithasol plant.**

Mae’r llwybr tuag at dynnu elw allan o ofal yng Nghymru yn mynd rhagddo’n dda, ac mae gweithredu’n hollbwysig nawr. Dylai’r llywodraeth nesaf sicrhau bod y pontio o ofal cymdeithasol preifat i ddarpariaeth nid-er-elw yn cael ei reoli’n dda ac yn cael adnoddau priodol, gan roi sicrwydd i’r sector.

- **Dylai strategaethau tai yn y dyfodol ymrwymo i gynnwys llety un ystafell wely, fforddiadwy mewn datblygiadau tai newydd.**

Mae prinder dybryd o dai fforddiadwy, priodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac mae hyn yn galw am newid strwythurol yn y ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein stoc dai leol ledled Cymru. Dylai strategaethau tai yn y dyfodol ystyried yr angen hwn er mwyn dechrau darparu’n ddigonol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a phobl ifanc sy’n wynebu risg o ddigartrefedd, sy’n methu â chael mynediad at y llety y mae arnynt ei angen yn aml oherwydd bod prinder tai un ystafell wely yn eu hardal.

Sbotolau ar Wasanaeth

### Teuluoedd Gyda'i Gilydd Sir Fynwy

Mae Teuluoedd Gyda'i Gilydd Sir Fynwy yn darparu cefnogaeth effeithiol wedi'i theilwra i deuluoedd sy'n gofalu am blant dan orchmynion gofal, gan weithio yn y pen draw tuag at ryddhau'r gorchmynion hyn a lleihau nifer y plant sydd mewn gofal.

Dechreuodd Nicola ofalu am ei hwyrion ifanc oherwydd bod ei merch yn cael anhawster i ddarparu amgylchedd diogel iddynt. Gwyddai ei bod wedi gwneud y penderfyniad cywir, ond roedd cymaint o waith i'w wneud. Teimlai ar goll wrth geisio ymdrin â systemau cyfreithiol, ymddygiadau yn gysylltiedig â thrawma, a'i hofnau ei hun.

Rhoddodd y Gwasanaeth Teuluoedd Gyda'i Gilydd gefnogaeth i'r teulu. Yn ôl Nicola roedd y gweithiwr cymorth Barnardo's yn "achubiaeth" iddi — yn cynnig cefnogaeth dawel a chyson mewn sefyllfa a oedd yn teimlo fel anhrefn iddi hi.

Helpodd y gweithiwr cymorth i egluro proses y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, ei rhoi mewn cysylltiad â gofalwyr eraill a rhwydweithiau cefnogi, cydgysylltu â gweithwyr cymdeithasol, a threfnu cefnogaeth therapiwtig i'r plant. Ond yn bwysicach na dim, teimlai Nicola fod rhywun yn gwrando arni — heb ei barnu. Dywedodd ei bod yn teimlo nad oedd yn cael ei brysio a'i bod yn cael "amser i grio, gofyn cwestiynau, ac anadlu."

**"Rwy'n credu o ddifri y byddwn i wedi rhoi'r ffidil yn y to o bosibl heb y gefnogaeth yna. Roedd gwybod bod rhywun yn meddwl amdani yn gwneud byd o wahaniaeth."**

Nicola, yn cael ei chefnogi gan wasanaeth Teuluoedd Gyda'i Gilydd Sir Fynwy

Sbotolau ar Wasanaeth

### BLOOM

Mae'r Prosiect Bloom yn cynorthwyo pobl ifanc rhwng 17 a 25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion. Drwy raglen hyfforddiant bywyd 12 wythnos, cyfeilla, gweithgareddau, a mentora cymheiriaid, mae pobl ifanc yn datblygu hyder, gwydnwch, a sgiliau cymdeithasol tra'n lleihau unigrwydd a gorbryder. Mae mentoriaid cymheiriaid (gadawyr gofal ychydig yn hŷn) yn rhannu eu profiadau er mwyn llywio eraill drwy adael gofal a byw'n annibynnol. Mae hyfforddiant bywyd yn grymuso pobl ifanc i osod nodau, gwella llesiant, a datgloi eu potensial ar gyfer dyfodol cadarnhaol.

**"A bod yn onest, be dw i'n ei fwynhau ydy'r cyfle i dreulio amser efo pobl eraill heb orfod poeni am arian neu fwyd y diwrnod hwnnw, gwneud pethau sylfaenol fel coginio neu dreulio pen-blwydd gyda'n gilydd yn chwarae cardiau neu chwarae efo sleim. Dw i di bod yn poeni am lawer o wahanol bethau, ond mae gallu dod yma, cael bwyd a chwarae gemau tra'n treulio amser efo pobl dw i wirioneddol yn mwynhau bod yn eu cwmni yn fy helpu i gadw fy mhen uwchben y dŵr. Mae'n ddihangfa o'r undonedd arferol."**

Person ifanc

Sbotolau ar Wasanaeth

**Believe: Positive Destinations**

Mae Believe yn ddarpariaeth wedi'i thargedu i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed ag anghenion cymhleth/niferus nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac sy'n agored i niwed, a'u cynorthwyo i symud yn nes at y farchnad gyflogaeth. Mae'n cynorthwyo pobl ifanc i adeiladu sgiliau gweithle a datblygu eu sgiliau bywyd, gwydnwch a hyder drwy raglen 12 wythnos gan gyfuno lleoliadau gwaith, sesiynau gweithdy a chefnogaeth ymarferol i'w symud yn nes at gyflogaeth, addysg a hyfforddiant, a llwybrau bywyd mwy cadarnhaol.

**"Erbyn hyn dw i'n teimlo mod i'n gallu cyfathrebu'n broffesiynol, dw i'n fwy hyderus a dw i'n llawer hapusach. Byddwn yn argymell y prosiect hwn i bawb. Roedd o'n wych ac mae o wedi fy helpu i gymaint".**

Person ifanc

**"Mae'r prosiect yma wedi rhoi strwythur a phatrwm i mi. Mae wedi fy ysgogi i wneud rhywbeth a dw i wedi mwynhau pob munud ohono fo. Mae wedi fy helpu i osod nodau a dw i wedi cyflawni pob un ohonyn nhw. Pan wnes i ddod yma doeddwn i ddim hyd yn oed yn siarad. Erbyn hyn mae gen i gymaint mwy o hyder a dw i'n teimlo y galla i gyflawni unrhyw beth dw i eisiau ei wneud."**

Person ifanc



# Plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol, manteisio a niwed

"Dydy gofalwyr ddim bob amser yn deall sut i ofalu am rywun sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Dydy plant ddim yn gwybod beth i'w ddweud, sut i siarad â phobl. Maen nhw'n eich tynnu chi o'r sefyllfa anniogel ond wedyn dydyn nhw ddim bob amser yn deall sut mae hynny wedi effeithio arnoch chi a sut mae'n dylanwadu ar bob rhan o'ch bywyd."

Person ifanc

"Dylai fod gan bawb rywun mae'n gallu ymddiried ynddyn nhw i siarad â nhw. Dydyn nhw ddim yn gallu newid y gorffennol, ond maen nhw'n gallu newid y dyfodol!"

Person ifanc

"Does gan bawb ddim oedolyn diogel a phriodol pan fyddan nhw'n gadael gofal. Maen nhw'n cael eu denu'n ôl at oedolion anniogel, ac yna gallai'r un peth ddigwydd eto."

Person ifanc

"Rydw i eisiau i bobl adnabod patrymau ymddygiad. Efallai fod rhywun yn cael trafferth ymdopi â'i orffennol ac yn poeni am ei ddyfodol. Weithiau mae fel ôl-fflachiau, atgofion."

Person ifanc

"Pe bai gen i'r pŵer, byddai'n dda gen i pe bai'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwrando mwy ar y plant, er mwyn bod yno i'r plant pan fydd eu hangen, parchu dymuniadau'r plant a'u hamddiffyn."

Person ifanc

"Dylai cam-drin rhywiol fod yn rhan o'r hyfforddiant i bob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys gofalwyr. Mae angen iddyn nhw gael gwell dealltwriaeth o gam-drin rhywiol ac o'r ymddygiad a'r rhesymau drosto. Dim eisiau sylw ydyn ni. Mae llawer o resymau dros hyn."

Person ifanc

"Yn y dosbarthiadau Addysg Rhyw a Chydberthynas yn yr ysgol fe wnaethon ni ddysgu am gydsyniad ac roedd hynny'n bwerus iawn. Fe wnes i sylweddoli nad oedd yr hyn a oedd yn digwydd i mi yn iawn."

Young person

"Mae'n bwysig i'r dioddefwyr wybod nad nhw oedd ar fai. Mae rhywun yn teimlo mai 'arna i mae'r bai, wnes i ddim cwffio'n ôl', ond doeddwn i ddim yn deall beth oedd yn digwydd ar y pryd."

Person ifanc

Mae data gan blant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth gan awdurdod lleol yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 yn dangos bod:

- 17,513 o blant yn derbyn gofal a chefnogaeth, cynnydd o 324 (2%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- O'r rhain, dechreuodd eu hanner (50%) wneud hynny oherwydd eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu oherwydd bod risg o hynny. Dyma'r categori angen mwyaf cyffredin ers dechrau casglu data yn 2017.
- Camweithrediad teuluol oedd y rheswm hefyd pam bod 15% o'r plant wedi dechrau derbyn gofal a chefnogaeth, yn cael ei ddilyn gan deulu dan straen acíwt yn achos 14% o'r plant.

Fodd bynnag, gwyddom mai yn anaml y mae plant sy'n ddioddefwyr yn cael eu hadnabod neu eu cyfeirio at asiantaethau statudol, sy'n awgrymu bod y gwir niferoedd yn llawer mwy. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, sy'n cael ei chynnal gan Barnardo's, yn amcangyfrif bod 500,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn.

Pan siaradon ni â phlant am eu profiadau o gam-drin rhywiol, dywedon nhw ei bod yn bwysig iddyn nhw eu bod yn gallu arfer eu hawliau fel unrhyw blentyn arall. Fe wnaethon nhw sôn am yr hawl i breifatrwydd, i deimlo bod oedolion yn eu parchu, ac i'r llywodraeth 'gymryd mwy o gyfrifoldeb i'n hamddiffyn ni rhag niwed'.

Dylai llywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i amddiffyn plant rhag risgiau manteisio, cam-drin a niwed, a chefnogi adferiad y rhai sydd wedi profi hyn, drwy:

- **Ariannu gwasanaethau cefnogi cynhwysfawr, sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan, i blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr cam-drin neu gamfanteisio ar blant yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth cam-i-fyny a cham-i-lawr.**

Mae'r Strategaeth Cam-drin Plant yn Rhywiol 10 mlynedd yn cadarnhau'r angen am gefnogaeth i'r teulu cyfan, gan gydnabod bod y niwed a achosir gan gam-drin plant yn rhywiol yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar y teulu uniongyrchol, ehangach a'r gymuned. Rhaid i ni gefnogi hyn â chymorth cynhwysfawr i blant a'u teuluoedd.

- **Cyflwyno llwybr Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a gwasanaethau cymorth arbenigol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth briodol cyn gynted ag y bo modd.**

Mae data diweddar, gan heddluoedd ac asiantaethau eraill, yn dangos bod 52% o'r rhai sy'n cael eu hamau o gyflawni troseddau cam-drin plant yn rhywiol yn blant. Er bod adroddiadau yn y cyfryngau'n cyfleu darlun hynod ddu a gwyn, yr hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthym yw bod nifer cynyddol o blant yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ond nad oes llawer o ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion, a bod y ddarpariaeth yn amrywio gan ddibynnu ble maen nhw'n byw.

Mae Barnardo's Cymru yn bryderus y gallai hyn arwain at ragor o droseddoli plant neu gosbau eraill megis diarddel o'r ysgol. Mae ar y plant hyn angen ymateb sy'n hybu eu lles, ond gwyddom fod prinder gwasanaethau cymorth ymddygiad rhywiol niweidiol i ddiwallu'r angen hwn. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod plant yn cael mynediad at gefnogaeth briodol drwy lwybr Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, a sector o ddarparwyr arbenigol â digon o adnoddau.

- **Mynd i'r afael yn drylwyr â'r heriau a brofir gan y trydydd sector wrth gynnig cefnogaeth arbenigol a gwasanaethau adfer yng Nghymru.**

Mae pob ymrwymiad rydym yn ei wneud i bobl ifanc ynglŷn â diwallu eu hanghenion cymorth yn cael ei danseilio os nad ydym yn rhoi digon o arian i'r gwasanaethau sydd yno iddynt. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi disgrifio'r dirwedd yng Nghymru fel 'loteri cod post' i blant sydd wedi dioddef camdriniaeth[13], ac roedd prinder cefnogaeth ym mhobman. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru wneud ymrwymiad pendant i newid hyn.

- **Buddsoddi mewn cysylltiadau cymunedol â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel cam amddiffynnol, ataliol i gefnogi plant.**

Nododd ymarferwyr fod lleihad wedi bod mewn cysylltiadau cymunedol â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig gyda'r sector gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd llawer at ba mor gadarnhaol roedd hyn wedi bod yn y gorffennol; drwy rannu gwybodaeth, datblygu perthnasoedd ac annog plant i ymddiried yn yr heddlu. Mae hyn wedi bod yn amlwg iawn ers y toriadau i Raglen Ysgolion yr Heddlu yng Nghymru. Dylai llywodraeth nesaf Cymru edrych sut rydym yn buddsoddi yn y maes hwn.

- **Cynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen ar blant, yn ôl plant.**

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod eisiau cael mynediad i glybiau ieuenctid sy'n gweithio gyda phlant agored i niwed. Yn aml, maen nhw'n teimlo nad yw mannau cyffredin yn iawn iddyn nhw, ond does dim opsiynau eraill ar gael. Gofynnodd y plant hefyd am 'wasanaethau sy'n ein galluogi ni i fynegi sut rydyn ni'n teimlo'. Dylai lleisiau plant fod wrth galon y ffordd rydyn ni'n datblygu gwasanaethau i'w cefnogi.

- **Cyflwyno prosiect Night Light yng Nghymru**

Dan y model[14] hwn a fabwysiadwyd ym Mryste, bu asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn tarfu ar gamfanteisio ar blant yn rhywiol a diogelu plant. Gan ganolbwyntio ar ardaloedd problemus, lle mae plant yn wynebu mwy o risg o gael eu targedu gan oedolion peryglus at ddibenion camfanteisio, bu Barnardo's ac asiantaethau partner yn gweithio gyda gweithwyr rhyw ar y stryd i rannu gwybodaeth am blant sydd mewn perygl a chymryd camau i'w diogelu.

[13] Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol Support matters: An overview of services for children and parents affected by sexual abuse 2024

[14] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-03/atisn23347doc6.pdf

Sbotolau ar Wasanaeth

**Dyfodol Gwell Barnardo's**

Mae Dyfodol Gwell Cymru yn darparu asesiad a gwasanaethau ymyrryd therapiwtig tymor hwy i blant, pobl ifanc a theuluoedd â hanesion wedi'u rhywioli ledled Cymru, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol; pobl ifanc sy'n arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol neu broblemus; a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin drwy Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae'n cael ei reoli gan Barnardo's ac mae mewn partneriaeth â chwe awdurdod lleol. Yn ystod y 25 mlynedd ers ei sefydlu, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi dros 2000 o blant a phobl ifanc.

Roedd Tomas* yn 10 oed pan gafodd ei gyfeirio at Dyfodol Gwell i gael cymorth mewn cysylltiad ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ar-lein. Roedd Tomas wedi bod yn gweld pornograffi ers pan oedd yn 7 oed ac roedd y deunydd roedd wedi ei weld wedi peri gofid iddo. Ar adeg yr atgyfeiriad, nid oedd neb yn gwybod yn iawn faint o ddelweddau roedd Tomas wedi eu gweld, na pha niwed yr oedd ef ei hun wedi ei brofi yn y cyd-destun hwn. Mae Tomas wedi gallu siarad â'i weithiwr Dyfodol Gwell ynglŷn â hyn; wrth wneud hyn trafododd Tomas ymddygiad y byddem yn ei ystyried yn gam-drin rhywiol ganddo. Roedd Tomas hefyd yn teimlo y gallai siarad am feddyliau ymwthiol yn ymwneud â'r delweddau roedd wedi eu gweld ynghyd â lefel o ofid a diddordeb yn y cyswllt hwn. Yn dilyn yr asesiad gyda Tomas argymhellwyd 30 sesiwn ymyrryd ar ei gyfer. Roedd hyn yn cynnwys 5 sesiwn o gymorth a oedd yn cael eu hargymell ar gyfer rhieni Tomas i'w helpu i ddeall y pryderon ymddygiadol, anghenion iechyd a lles Tomas a goruchwyliaeth a monitro parhaus drwy gynllun diogelwch.

Dywedodd Tomas: "Dwi'n meddwl bod hyn wedi newid fy mywyd, roedd gen i ofn dod yma i ddechrau ond rŵan dw i ddim isio iddo fo orffen."

"Ro'n i'n falch mod i'n cael amser i deimlo'n ddiogel i ddechrau. Weithiau roedden ni'n chwarae gemau pan oedden ni'n siarad, ac roedd yn haws ei wneud o felly."

"Dywedodd mam wrtha i am fod yn onest ynglŷn â beth ddigwyddodd, do'n i ddim yn meddwl y byddwn i'n gallu siarad amdano fo o gwbl, ond roedd gan y gweithiwr yn Dyfodol Gwell ffordd a oedd yn fy helpu i siarad yn agored"

Roedd Ryan yn 15 oed pan gafodd ei gyfeirio at Dyfodol Gwell, ar ôl cyffwrdd ei frawd iau yn rhywiol. Roedd gan Ryan ei brofiadau ei hun o gael ei gam-drin, ac roedd hefyd wedi dod i gysylltiad â thrais ym mherthnasoedd blaenorol a phresennol ei fam.

Gwnaethpwyd asesiad trylwyr gyda Ryan, a nodwyd bod ganddo: hunan-dyb isel; lefelau uchel o unigrwydd emosiynol o'i gymharu â bechgyn eraill o'r un oed; lefelau uwch o gamgymeriadau meddwl (patrymau meddwl afresymegol a all achosi iselder a chael eu hachosi gan iselder) yn ymwneud â phlant a rhyw nag sydd i'w weld yn y boblogaeth adolesent arferol; a'i fod fel pe bai'n meddwl nad oedd ei frawd a'i gefnder yn gwrthwynebu'r gamdriniaeth, ac nad oedd ei ymddygiad yn achosi niwed iddynt.

"Ar y pryd do'n i ddim yn deall yn iawn beth oedd y broblem. Roedd pethau fel yna wedi digwydd i fi hefyd ac ar y pryd ro'n i'n meddwl bod y rhan fwyaf o blant yn gwybod am ryw a'u bod nhw'n iawn efo be o'n i'n ei wneud"

Dros nifer o fisoedd, buom yn gweithio gyda Ryan yn wythnosol. Fe wnaethom ei helpu i ddeall mwy am gydsyniad a chamddefnyddio pŵer i gam-drin ei frawd. Ymhen amser, dechreuodd Ryan ddeall mwy am ei ymddygiad, a sut roedd ei brofiad ef ei hun o gael ei gam-drin wedi dylanwadu ar y ffordd roedd yn meddwl am ryw. Datblygodd Ryan well dealltwriaeth o effaith ei ymddygiad ar ei frawd. Roedd Ryan yn teimlo'n wael iawn ynglŷn â'r hyn oedd wedi digwydd, ac fe wnaethom ei gefnogi â'r teimladau hyn hefyd.

'Roedd deall y gwaith yn Dyfodol Gwell yn heriol, ond mae wedi bod yn help mawr i mi. Dw i'n gwybod sut i reoli fy hun er mwyn gwneud yn siŵr bod rhywbeth fel hyn ddim yn digwydd eto a dw i'n teimlo'n llawer mwy gobeithiol ynglŷn â fy nyfodol.'

* Enwau wedi eu newid.

# Cam-drin domestig

**Mae effaith drawmatig profi cam-drin domestig fel plentyn yn gallu arwain at ganlyniadau sy'n para gydol oes ac mae miloedd o blant yng Nghymru yn delio â hyn bob diwrnod. Dylai llywodraeth nesaf Cymru:**

- **Ariannu ymagwedd teulu cyfan at gam-drin domestig yng Nghymru.**


Rhoi terfyn ar y loteri cod post y mae plant yn ei brofi wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol a sicrhau bod plant yn cael eu cydnabod o ddifri fel dioddefwyr drwy eu hawl eu hunain drwy ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael cymorth. Mae cyllid cynaliadwy yn broblem endemig i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru. Rhaid i hyn fod yn rhan hanfodol o ddarparu cefnogaeth i'r teulu cyfan.

- **Darparu hyfforddiant hygyrch, priodol i ysgolion.**

Mae ymchwil Barnardo's Cymru sy'n canolbwyntio ar ysgolion yng Ngwent[17] wedi dangos bod modd gwella'r ymateb i Ymgyrch Encompass mewn ysgolion yn y maes hwn ; ar gyfer plant a staff ysgol. Mae gennym gyfle i gynorthwyo athrawon â'r sgiliau a'r hyder i gefnogi plentyn pan fydd cam-drin domestig wedi digwydd gartref. Dylai hyn gynnwys yr hyfforddiant iawn, ar adegau rheolaidd i staff ysgol, a sicrhau bod gan bob ysgol bolisi cam-drin domestig effeithiol.

- **Buddsoddi mewn gwrando o ddifri ar leisiau plant a phobl ifanc pan fyddant wedi profi cam-drin domestig.**

Mynegodd ymarferwyr arbenigol sy'n gweithio gyda phlant bryderon ynglŷn â'r broses wrth iddynt dynnu at derfyn ymyriad â phlentyn sydd wedi dioddef cam-drin domestig, yn enwedig o ran anghenion cymorth parhaus. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu cymorth cam-i-fyny a cham-i-lawr, fel bod pob plentyn yn dal i deimlo ei fod yn cael ei ddal, ei glywed a'i gefnogi. Heb fuddsoddiad yn yr agwedd hanfodol hon ar gymorth, mae ymarferwyr yn ofni y gellir tanseilio'r berthynas o ymddiriedaeth a ddatblygwyd gyda phlant.



[15] Barnardo's Cymru a Dyfodol Diogel Gwent, Ymgyrch Encompass: Adroddiad Ymchwil a ddatblygwyd gan Barnardo's Cymru a Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent

# Plant a theuluoedd sy'n ceisio noddfa yn y DU

## Cenedl Noddfa

Datganodd Cymru ei hun fel y Genedl Noddfa gyntaf yn 2019; cenedl sydd wedi ymrwymo i wella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa, gan gydnabod anghenion penodol plant a theuluoedd sy'n ffoi rhag gwrthdaro, rhyfel ac erledigaeth. Er bod Cymru wedi arloesi â strategaeth genedlaethol i weithio tuag at fod yn Genedl Noddfa lawn, mae cynnydd ar fesurau â'r bwriad o gefnogi plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn well wedi bod yn gyfyngedig.

Er mwyn cefnogi babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru:

- **Ailddatgan ymrwymiad Cenedl Noddfa Cymru a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Cenedl Noddfa penodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n cynnwys targedau statudol yn gysylltiedig â mynediad at iechyd, addysg, tai a chanlyniadau gofal cymdeithasol.**
- **Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc sy'n ceisio noddfa yng Nghymru; eu gwneud yn ganolog i lunio polisi a thrin pob penderfyniad fel pe bai pobl ifanc yn yr ystafell tra mae'n cael ei wneud.**
- **Gan weithio gyda Phartneriaethau Mudo Strategol Cymru, hybu integreiddio drwy sefydlu 'canolfannau croeso' i deuluoedd sy'n ceisio noddfa sy'n cynyddu cyswllt cymdeithasol rhwng newydd-ddyfodiaid a chymunedau sy'n derbyn.**





# Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Noddfa

**Gallai miloedd o blant ar eu pen eu hunain gyrraedd y DU bob blwyddyn i geisio lloches. Ar 31 Mawrth 2024 roedd 4.7% (tua 338) o blant mewn gofal yng Nghymru yn blant a oedd yn ceisio lloches ar eu pen eu hunain[16].**

Mae plant sy'n cyrraedd ar eu pen eu hunain a heb eu rhieni yn aml yn ofnus ac mewn perygl, ar ôl wynebu digwyddiadau trawmatig yn eu gwlad enedigol ac ar eu taith i'r DU. Rhaid i ni sicrhau bod y plant hyn yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu diogelu, a'u bod yn cael mynediad at ofal iechyd, addysg, a chefnogaeth sy'n ystyriol o drawma.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd yn ddi-dor er mwyn sicrhau bod plant sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn cael y gofal a'r cymorth gorau posibl, pan fyddant yn cyrraedd Cymru ac yn ystod eu bywydau yma.

- **Sefydlu cynllun Gwarcheidiaeth cenedlaethol statudol i bob plentyn sy'n ceisio lloches ar ei ben ei hun yng Nghymru, gan efelychu model yr Alban er mwyn sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain yn cael eiriolwr annibynnol i'w helpu i ganfod eu ffordd o gwmpas y systemau lloches a gofal.**

- **Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gymorth iechyd meddwl buan sy'n ystyriol o drawma ac yn rhoi sylw i hunaniaeth ddiwylliannol a phrofiad personol. Dylai hyn gynnwys anghenion ieithyddol fel blaenoriaeth absoliwt.**

- **Diweddaru'r pecyn cymorth ar asesiad oedran yng Nghymru, gan ddefnyddio canllawiau pendant i awdurdodau lleol ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ddefnyddio.**

Mae ymarferwyr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod ymarfer sy'n gysylltiedig ag asesiad oedran wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ymarfer anghyson i'w weld rhwng gwahanol awdurdodau lleol, ac mae ymarferwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt atgoffa staff ynglŷn â'r canllawiau. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau hyn, gan nodi'n glir wrth awdurdodau lleol nad arferion gorau i anelu tuag atynt yw'r canllawiau hyn, ond sylfeini'r ffordd rydym yn gweithio gyda phlant.

[16] https://www.llyw.cymru/plant-syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-ystadegau-swyddogol-mewn-datblygiad-html?utm_source=chatgpt.com

- **Edrych am gyfleoedd i wella mynediad plant ar eu pen eu hunain at addysg, cyflogadwyedd a sgiliau.**

Mae cynlluniau peilot wedi'u cynnal er mwyn paru Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) â chefnogaeth addysg a chyflogadwyedd. Byddem yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i gymryd camau i ymwreiddio hyn ymhellach er mwyn grymuso pobl ifanc â'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Mae gwaith cadarnhaol wedi'i wneud yng Nghaerdydd a Choleg y Fro a dylem geisio dysgu gwersi ohono. Mae'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant a sgiliau yn golygu ei bod yn fwy tebygol y byddant yn dychwelyd i leoedd lle mae risg o gamfanteisio. Gallwn wneud yn well, ac mae'n rhaid i hynny ddigwydd.



# Teuluoedd sy'n dioddef y tlodi mwyaf ac nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus ('NRPF')



Rhai o'r teuluoedd sy'n byw yn y tlodi mwyaf yw'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus, ac sy'n methu â chael mynediad at nawdd cymdeithasol. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc nad ydynt yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r taliadau nawdd cymdeithasol, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, budd-dal plant, cymorth tai a'r taliadau costau byw neu gronfeydd lles ychwanegol.

Canfu ymchwil gan Sefydliad Bevan fod teuluoedd yn y sefyllfa hon yn aml yn cael eu gadael heb unrhyw incwm rheolaidd o gwbl, gan ddibynnu ar fanciau bwyd, prydau ysgol neu gymorth brys gan wasanaethau lleol sydd wedi'u hymestyn i'r eithaf. Mewn rhai achosion, canfuwyd bod mam sengl a dau o blant yn byw ar ddim ond £20 yr wythnos, heb hanfodion sylfaenol fel gwres, dillad cynnes neu nwyddau ymolchi[17].

Rhaid i'r llywodraeth nesaf roi blaenoriaeth i gydnabod hyn a chymryd camau i wneud bywydau teuluoedd yn haws, yn fwy urddasol, ac yn rhydd o dlodi.

- **Sefydlu Cronfa Cymorth Tlodi Plant NRPF yn cael ei hariannu'n ganolog, ac yn cael ei chyflwyno drwy awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector, gan sicrhau mynediad cyson, heb stigma, at gefnogaeth sylfaenol i deuluoedd sydd wedi cael eu cau allan o'r system nawdd cymdeithasol.**

Mae canllawiau Cymru ar Ddim Hawl i gael Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024, ac sy'n seiliedig ar Adran 37 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi na ddylai statws mewnfudo byth bennu mynediad at gymorth. Yn bwysig iawn, rhaid i anghenion plentyn ysgogi asesiad Plentyn mewn Angen yn fuan a heb unrhyw oedi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gweithredu'r ddyletswydd hon yn systematig, a gallai hynny adael plant mewn tlodi ac yn wynebu risg.

- **Cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi a diwallu anghenion plant mewn cartrefi heb hawl i gael arian cyhoeddus yn gyson, gan gynnwys cyflwyno trothwyon clir ar gyfer tlodi, yn cael eu symleiddio â throthwyon asesu awtomatig a chanllawiau cliriach ar gyflawni dyletswyddau Adran 37.**

Ar gyfer plant a phobl ifanc, mae hawl i brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn seiliedig ar brawf modd ar hyn o bryd ac yn gysylltiedig â derbyn taliadau nawdd cymdeithasol cysylltiedig ag incwm cymwys. Nid yw teuluoedd heb hawl i gael arian cyhoeddus yn gymwys i'r gefnogaeth hon oherwydd eu statws mewnfudo, ac mae hynny'n golygu bod plant sy'n wynebu'r tlodi mwyaf yn methu â chael prydau ysgol am ddim na grantiau gwisg ysgol.

- **Cyflwyno hawl awtomatig i blant mewn teuluoedd heb hawl i gael arian cyhoeddus ('NRPF') gael grantiau gwisg ysgol a phrydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.**

[17] https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/More-Than-a-Nation-of-Sanctuary-report-V3.pdf

# Gwybodaeth am Barnardo's Cymru

**Yn Barnardo's, mae ein pwrpas yn glir – newid plentyndod a newid bywydau, fel bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ddiogel, yn hapus, yn iach ac yn fwy gobeithiol. Y llynedd, fe wnaethom ni roi cefnogaeth hanfodol i dros 9000 o blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yng Nghymru drwy 45 o wasanaethau a phartneriaethau ar hyd a lled Cymru. Ers 150 o flynyddoedd a mwy, rydym wedi bod yma i'r plant a'r bobl ifanc sydd ein hangen ni fwyaf – gan ddod â chariad, gofal a gobaith i'w bywydau a rhoi lle iddyn nhw deimlo eu bod yn perthyn.**

**CYMRU@barnardos.org.uk**

© Barnardo's, 2025 All rights reserved

No part of this report, including images, may be reproduced or stored on an authorised retrieval system, or transmitted in any form or by any means, without prior permission of the publisher.

All images are posed by models.
Names have been changed to protect identities.

**barnardos.org.uk**

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside,
Ilford, Essex IG6 1QG | Tel: 020 8550 8822

Barnardo's Registered Charity Nos.216250 and SC037605 26077af25